

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sym : 07903328655
e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

**MUNUDAU CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD LLUN,
IONAWR 6ed, 2020, YN NEUADD Y PENTREF, BETWS YN RHOS.**

1. **CROESO** - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Dymunai'r Cadeirydd Estyn cydymdeimlad y Cyngor i'r Cynghorydd Bryn Jones ar colled ei frawd.
2. **YN BRESENNOL** - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths, yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eifion Evans a'r Cyngorwyr Hefin Williams; D.Gwyn Jones; Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts a'r Cynghorydd Goronwy R.Williams.
3. **YMDDIHEURIADASU** - y Cyngorwyr Bryn Jones; Fiona Haf Jones a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
4. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** - Atgoffir yr aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. **NI DDATGELWYD YR UN.**
5. **MUNUDAU - PENDERFYNWYD** cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Ragfyr 2ail, 2019, yn y Ganolfan Gymunedol, Llanellian yn Rhos.
6. **MATERION YN CODI** -
 - 3.19/18(i) Tyllau ffordd rhwng Betws a Nant yr Efail. Mae rhif gwaith 00046881 yn cyfeirio. **PENDERFYNWYD GOHIRIO.**
 - 3.19/18(ii) Asesiad o gwyn ynghylch damweiniau niferus ar y troadau ger Bryn Person. Mae rhif. 46292 yn cyfeirio. **PENDERFYNWYD GOHIRIO.**
 - 7.19/18(v) Llythyr gan Mr Goronwy Davies ynglŷn â charreg fedd ym mynwent yr eglwys. Mae'r Cyngor yn dal i aros am ateb gan Mr Huw Davies.
 - 11.19/18(i) Cyflwr wyneb y ffordd rhwng Nant yr Efail a PheniARTH Bach. **PENDERFYNWYD GOHIRIO.**
7. **GOHEBIAETH GYFFREDINOL** -

12.19/7(ii) Gohebiaeth bellach gan Darren Millar AC ynghylch diogelwch preswylwyr ym Metws yn Rhos pan fydd tagfa ar yr A55. NODWYD hyn gan ddisgwyl unrhyw weithredu gan Gyngor Sir Conwy.

8. **CYLLID - PENDERFYNWYD** nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Ragfyr 20fed, 2019.

Cyfrif cymunedol£7991.06

Cyfrif busnes£5545.26

I gytuno ar, ac arwyddo'r adroddiad ariannol misol ar gyfer Rhagfyr 2019.

CYTUNWYD ARNO GAN BAWB.

9. **TALIADAU A DDERBYNIWYD - PENDERFYNWYD NODI**r taliadau isod a dderbyniwyd:-

1.20/9(i) Y praesept£3000.00

1.20/9(ii) Llog y Banc£ 2.76

10. **TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD TALU**'r holl eitemau a restrir isod:-

i. 1.20/10(i) Cyflog y Clerc(DU).....£ 287.23

ii. 1.20/10(ii) HMRC...(DU)£ 71.81

iii. 1.20/10(iii) Cyfieithu (Hanner y gost)£ 15.00 - Siec 200065

11. **CEISIADAU AM GRANT** - Dim.

12. **MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

4.16/12(i) Adroddiadau ynglŷn â materion Archwiliad Ward. Roedd ymddiheuriad wedi ei dderbyn gan y Cyngorydd Lloyd.

13. **MATERION CYNULLIAD CYMRU** - Dim.

14. **MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED.**

1.10/14(i) Cwyn am dyllau ffordd rhwng Twnan ac Ysgol y Plas.

1.10/14(ii) Cwyn am dyllau ffordd rhwng Cefn Isa a Chefn Fran.

1.10/14(iii) Roedd angen glanhau'r ffordd yn Dawn, Cefn Coch.

1.10/14(iv) Cwyn am wrychoedd uchel ym Mhen y Marian.

1.10/14(v) PENDERFYNWYD gofyn i Mr Tomos Hughes i ddod i gyfarfod mis Chwefror.

15. UNRHYW FATER ARALL

9.19/15(i) Cyflwr hysbysfyrddau yn yr ardal. Mae hysbysfyrddau newydd i gael eu gosod ym Metws yn Rhos a Llanellian yn Rhos.

1.20/14(i) Cofrestru a thaliad ICO yn ddyledus erbyn diwedd Ionawr. PENDERFYNWYD talu £40 i'r Swyddog Gomisiynydd Gwybodaeth (ICO).

1.20/14(ii) Apwyntiad Archwilydd Mewnol. PENDERFYNWYD ail apwyntio JDH Services fel ein Harchwilydd Mewnol am y flwyddyn ariannol nesaf.

1.20/14(iii) Dyfodol cyfarfodydd mis Rhagfyr. PENDERFYNWYD peidio â chyfarfod ym mis Rhagfyr gan fod dyddiad y cyfarfod yn agos iawn at y Nadolig.

1.20/14(iv) Cais gan Darren Millar i arddangos cyhoeddiadau syrjeri.. CYTUNWYD i hynny.

1.20/14(v) Cerdyn Nadolig gan Darren Millar AC. NODWYD hwnnw gyda diolch.

16. CYNLLUNIO -

1.20/15(i) 0/46952 Estyniad unllawr cefn ac adnewyddu ffenestri. (Caniatâd adeilad cofrestredig) yn Gwyndy Uchaf, Ffordd Bryn Car, Betws yn Rhos. Mr Jones. DIM GWRTHWYNEBIAD.

1.20/15(ii) 0/46931 Datblygu tir ar gyfer darparu 2 iwert. Gosod 1 tioled compostio, defnydd cymysg o shippon unllawr cysylliedig â defnydd iwert a gwaith cysylltiol. (Cynllun diwygiedig yn dilyn gwrthod caniatâd cynllunio) ym Mryn Neuadd, Ffordd Croes Engan, Trofarth. J.Featherstonehaugh. DIM GWRTHWYNEBIAD.

1.20/15(iii) 0/46906 Ail osod allan arfaethedig Parc Carafanio Plas Newydd i gynnwys cyfanswm o 46 carafan gwyliau sefydlog, gyda symud y bloc derbyn / toiled presennol i ddarparu derbynfa a gwelliannau amgylcheddol newydd cyfangwbl yn Fferm Pllas Newydd, Ffordd Isallt, Llanddulas. Mr Kevin Hogan PENDERFYNWYD gadael i swyddogion yr awdurdod cynllunio i wneud y penderfyniad.

1.20/15(iv) 0/46926 Hysbysiad am symud gwrych yn NSH84282 71009. DIM GWRTHWYNEBIAD.

17. MATERION ARCHWILIAD -

1.20/16(i) Cyhoeddiad am themâu Archwiliad ar gyfer 2020/2021, sef Cyflogi staff a lles cenedlaethau'r dyfodol. NODWYD hyn.

1.20/16(ii) Anghenion Praesept i'w hanfon i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Y cais Praesept i'w anfon i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.